Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk


Llanilltud Fawr

# Arfordir De Cymru

*"Mae gan Forlin Morgannwg lawer i'w gynnig, felly nid yw'n syndod bod rhan ohono'n Forlin Treftadaeth. Cynigia'r clogwyni calchfaen trawiadol a'r gwely môr agored gryn ddiddordeb daearegol, ac mae'r golygfeydd oddi yma heb eu hail, gan edrych yn syth draw at forlin gogledd Dyfnaint. Ar hyd y llwybr, gwelir goleudai, parciau a gerddi hanesyddol, a phentrefi arfordirol prydferth i'w harchwilio."*

**Swyddog Llwybr Arfordir Cymru**

## O'r Barri i Borthcawl

Diwydiant a byd natur yn cerdded law yn llaw ar hyd y darn bywiog hwn o Lwybr Arfordir Cymru.

Mwynhewch y tridiau hyn o antur gan aros dros nos ym Mhen-y-bont ar Ogwr, neu gallwch aros ar hyd y ffordd ger yr anheddiad ar ddiwedd pob dydd.

## Cyrraedd

Mae trenau uniongyrchol i Ben-y-bont ar Ogwr o Lundain Paddington, Manceinion Piccadilly, Casnewydd, Abertawe, Caerdydd, Crewe a Pharcffordd Bryste. Ceir hefyd fysiau uniongyrchol i Ben-y-bont ar Ogwr. Trowch at wefan National Express am ragor o fanylion.

## Aros dros nôs

Tref farchnad brysur yw Pen-y-bont ar Ogwr rhwng y bryniau a'r môr ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Oherwydd ei chysylltiadau cludiant da, mae'n lle perffaith i archwilio'r cildraethau a'r cilfachau llai ar forlin Morgannwg.

## Llety

Mae digonedd o leoedd i aros ym Mhen-y-bont ar Ogwr:

**southernwales.com/where-to-stay/find-a-place-to-stay.aspx**

## Bwyta Allan

Mae llawer o leoedd gwych i fwyta:


**tripadvisor.co.uk/Restaurants-g186458-Bridgend_Bridgend_County_South_Wales_Wales.html**

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk

# Arfordir De Cymru



## Cyngor ar y Tir

Am fod Llwybr Arfordir Cymru'n dilyn y morlin yn agos, mae'n anochel y dewch chi ar draws erydiad, clogwyni serth a llwybrau creigiog. Cymerwch ofal, a chofiwch ddewis esgidiau a dillad sy'n briodol i'r amodau hyn ac sy'n addas i ragolygon y tywydd. Cofiwch hefyd holi am amseroedd y llanw.

## Anhawster

Taith gerdded weddol egnïol gyda rhai rhiwiau serth i fyny ac i lawr. Mae gofyn lefel resymol o ffitrwydd oherwydd cerddir 29 milltir mewn 3 diwrnod.

## Cludiant Cyhoeddus

Daw manylion cludiant gyda phob taith gerdded, ond cofiwch fwrw golwg am amseroedd yma **traveline.cymru** neu National Rail **nationalrail.co.uk** neu Trafnidiaeth Cymru **trctrenau.cymru/cy/hafan**

## Cludo Bagiau

Os ydych am aros mewn llety ar hyd y ffordd, gwnewch y siwrnai'n rhwyddach drwy ddefnyddio gwasanaeth cludo i drosglwyddo'ch bagiau i'ch cyrchfan nesaf.
**walescoastpath.gov.uk/plan-your-visit/planning-carrying-help/?lang=cy**

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Y Barri i Lanilltud Fawr 11 milltir

***Dechreuwch y daith gerdded wrth y promenâd mewn ardal adnabyddus, dlws o'r Barri, ychydig islaw'r Knap, gyda thraeth caregog a llyn mawr.***

## Dechrau

Ar ddiwedd y promenâd, rydych yn gadael y Barri drefol ac yn mentro i fyny clawdd glaswelltog serth i'r pen clogwyn eang. Dilynwch y clogwyn a'i goed wrth iddo barhau i godi. Ar ddiwedd y clogwyn, disgynna'r llwybr yn weddol serth i lawr y 'Grisiau Euraid'. Yn anffodus, nid aur mo'r grisiau, ac nid ydynt yn foethus o gwbl. Daw eu henw o'r awgrym fod Arglwydd Romilly, a ariannodd y grisiau, wedi gosod sofren aur o dan y sylfeini pan gawsant eu hadeiladu.

Mae'r grisiau'n arwain at Barc Gwledig Porthceri gyda'i gaffi a'i doiledau, a thraphont reilffordd drawiadol iawn uwch ei ben. Cadwch i'r chwith yma, ymlaen uwchben y traeth, gan gadw tua'r dde i fyny trac troellog drwy goetir. Yn y pen draw, dewch i lawr i gae wrth ymyl yr hyn a arferai fod yn anheddiad oes haearn, sef y Gwersyll Bwlwarcau a feddiannwyd tua 2000 C.C. Yn debyg i lawer o aneddiadau hynafol, dim ond amlinelliad codiad moel y cae sydd wedi parhau, ond mae'n dda i'ch atgoffa o'r hanes sy'n gwmni ichi ar eich taith gerdded heddiw.

Ewch drwy anheddiad arall mwy cyfoes yn awr, sef parc carafanau (cartref Nessa yn y rhaglen deledu Gavin & Stacey!). Dilynwch y llwybr ar hyd pen y clogwyn heibio i byllau artiffisial, sy'n rhan o hen system chwarel; erbyn hyn, gwarchodfa sydd yma i fywyd gwyllt felly cadwch lygad barcud. Cyn hir byddwch yn cyrraedd Trwyn y Rhws sef pwynt mwyaf deheuol tir mawr Cymru. Byddwch yn gwybod eich bod wedi cyrraedd oherwydd mae yno gylchoedd cerrig ac obelisg 4 metr o uchder.

Ymlaen â'r llwybr drwy ardal chwarel segur sydd wedi'i hadfer bellach yn barcdir, ac sy'n tonni'n ysgafn cyn cyrraedd yn agos i bentref Ffont-y-gari lle gallech chi fwynhau cinio tafarn. Cofiwch edrych yn ôl am y tro olaf ar hyd y clogwyni calchfaen trawiadol i Drwyn y Rhws.

Bydd parc gwyliau Ffont-y-gari o'ch blaenau a'r tu hwnt i hwnnw fe sylwch ar simnai fawr ar y gorwel sy'n rhan o Orsaf Bŵer Aberddawan. Ym mhen draw'r parc gwyliau, mae'r llwybr yn mynd heibio'n agos i reilffordd waith lle mae llawer o drenau nwyddau'n clecian heibio. Gan ddisgyn o'r tir uchel, mae'r daith yn cefnu ar ddiwydiant am y tro ac yn mynd drwy ardal heddychlon o lagŵn, cors a graean sef Gwarchodfa Natur Aberddawan lle gwelwch lond gwlad o flodau gwyllt a bywyd gwyllt yn cuddio yma yn y dirwedd ddiymhongar.

Gan adael y warchodfa, fe sylwch fod y simnai a welsoch yn gynharach yn agosáu ac yn fwy o faint erbyn hyn! Rydych yn pasio drwy bont tan orchudd dros foryd fechan ac yna'n cerdded yng nghysgod gorsaf bŵer Aberddawan. Mae Cymru'n enwog am ei mynyddoedd duon, ond pentwr anferth o lo yw'r mynydd a welwch yma! Fodd bynnag, nid yw'r rhan hon yn para'n hir a, chyn y gwyddoch, rydych yn dychwelyd i ddilyn y traeth, i Fae Summerhouse.

Sgrialu'n gyflym dros y creigiau sydd nesaf, wrth ichi ddisgyn i'r traeth cyn dringo'n ôl i fyny i'r clogwyni. Ar weddill y daith pen clogwyn, cynigir golygfeydd ysblennydd ar draws y môr ac i lawr i'r draethlin greigiog islaw. Os yw'r llanw allan, cadwch lygad am y ffurfiannau craig consentrig anhygoel ar y lan.

O'r diwedd, cyrhaeddwch y traeth yng Nghwm Colhuw. Nid oes cludiant o'r traeth, felly bydd angen ichi gerdded i fyny'r lôn i bentref Llanilltud Fawr am ryw filltir i gyrraedd yr orsaf drenau a'r safleoedd bws.

## Cludiant i fan cychwyn y daith


Ewch ar fws rhif 303 o Orsaf Fysiau Pen-y-bont ar Ogwr i Park Avenue yn y Barri. Mae'r bysiau'n mynd bob awr, a'r siwrnai tuag awr a 25 munud. Mae'r trên o Ben-y-bont ar Ogwr i'r Barri'n gadael tua phob awr ac mae'n cymryd rhyw 35 munud. Cofiwch fwrw golwg ar yr amseroedd cyn cychwyn.

## Cludiant ar ddiwedd y daith

Ewch ar y trên o orsaf drenau Llanilltud Fawr i Ben-y-bont ar Ogwr. Mae'r trenau'n mynd bob awr a'r siwrnai'n cymryd rhyw 20 munud. Fel arall, mae bws 303 o orsaf fysiau Llanilltud i Ben-y-bont yn mynd bob awr ac yn cymryd rhyw 45 munud. Cofiwch fwrw golwg ar yr amseroedd cyn cychwyn.

# Llanilltud Fawr i Aberogwr 9.5 milltir

*O Lanilltud Fawr hanesyddol i draeth euraid Aberogwr, mae'r llwybr pen clogwyn hwn yn cynnig llu o ryfeddodau daearegol.*




## Dechrau

Gadewch y trên yn Llanilltud Fawr i ddechrau'r daith hon. Er ei bod yn dref fechan, mae gan Lanilltud Fawr lawer o adeiladau hanesyddol sy'n cynnwys neuadd tref ganoloesol, adfeilion maenordy, sylfeini fila Rufeinig, porthdy canoloesol, pensaernïaeth Duduraidd ac, i goroni'r cyfan, castell! Felly, os ydych wrth eich bodd â hanes, cofiwch grwydro'r lle cyn cychwyn ar eich taith.

O'r dref, anelwch at y môr lle mae caffi glan môr. Yma byddwch yn ymuno â Llwybr Arfordir Cymru wrth iddo ddringo a pharhau ar hyd y clogwyni i'r gorllewin tuag Aberogwr.

Cyn hir, byddwch yn mynd heibio i gaer danddaearol gerrig o'r Ail Ryfel Byd lle mae'r llwybr clogwyn yn disgyn i'r traeth cerigos ym Mae Tresilian, sy'n amlwg wrth yr un tŷ gwyn sydd uwch ei ben. Yn ôl pob sôn, arferai fod Tafarn yn y bae yr ymwelai môr-ladron yn aml â hi, ond nid oes tafarn bellach na Baneri Du i'w gweld heddiw, felly croeswch y traeth a dringo'r grisiau carreg cain yn ôl i'r clogwyni coediog ac ymlaen i Fae Sain Dunwyd. Yma mae'r llwybr yn croesi'r cei ac yn mynd heibio i Goleg a Chastell Sain Dunwyd. Cofiwch gael gwybod am unrhyw lanw penodol o uchel yma.

Ar ochr arall y cei, dringa'r llwybr y clogwyn eto cyn mynd drwy ragor o goetir gan ddod i'r golwg ar ben clogwyn agored a goleudy Trwyn yr As Fach yn y golwg i gyd. Hwn oedd y goleudy olaf â chriw yng Nghymru. Os edrychwch yn ofalus, fe welwch fod dau oleudy a chyrn niwl anferth. Diolch byth, ni fyddant yn seinio wrth ichi fynd heibio oherwydd cawsant eu datgomisiynu rai blynyddoedd yn ôl (er eu bod yn cael eu seinio am briodasau a gynhelir yn y goleudy!).

Y tu hwnt i'r goleudy mae'r pennau clogwyn glaswelltog yn ildio gan donni'n osgeiddig i'r lle mae Nant Marcroes yn canfod ei ffordd i'r môr. A chithau wedi bod yn drefnus, dyma le perffaith i gael picnig. Mae'r llwybr pen clogwyn hwn yn hawdd ei gerdded, a golygfeydd rheolaidd allan i'r môr. Edrychwch am ffurfiannau craig anhygoel yn y traethau a'r clogwyni calchfaen lle mae llawer o staciau fel petaent ar fin dymchwel!

Mae'r llwybr yn dal i ddringo ac yna disgyn drwy ddyffrynnoedd coediog a chilfachau bychain nes ychydig ar ôl y grisiau yng Nghwm Mawr, pan gyrhaeddwch Barc Dwnrhefn. Safle caer hynafol a thomenni clustog yw hwn. Mae yma lwybrau sy'n archwilio'r safle ond dychwelwch i'r Llwybr Arfordir er mwyn dod heibio i Dŵr lâ castellog. Yr olygfa orau o'r safle yw edrych yn ôl o'r ochr arall i Fae Dwnrhefn. Edrychwch yn y man hwn am y Ganolfan Arfordir Treftadaeth lle gallwch aros i ddarllen am hanes y morlin a'i ddaeareg.

Rydych yn agosáu bellach at Aberogwr, lle mae'r clogwyni'n tonni i lawr tua'r môr, ond mae cwymp anferth annisgwyl yn y pen draw, felly os oes gennych gŵn neu blant gyda chi, cymerwch ofal. O'r diwedd, mae'r clogwyni'n troi'n draethau â thwyni isel y tu ôl iddynt, wrth ichi wneud eich ffordd i aber Afon Ogwr ac i'r pentref i gwrdd â'ch cludiant tuag adref.

## Cludiant i fan cychwyn y daith


Ewch ar y trên o orsaf drenau Pen-y-bont ar Ogwr i Lanilltud Fawr. Mae'r trenau'n mynd bob awr a'r siwrnai'n cymryd rhyw 20 munud. Fel arall, mae bws 303 o Orsaf Fysiau Pen-y-bont ar Ogwr i Lanilltud Fawr yn mynd bob awr ac yn cymryd rhyw 45 munud. Cofiwch fwrw golwg ar yr amseroedd cyn cychwyn.

## Cludiant ar ddiwedd y daith

Mae bws rhif 303 o Brif Ffordd, Aberogwr i Orsaf Fysiau Pen-y-bont ar Ogwr yn mynd bob awr ac yn cymryd rhyw 20 munud. Cofiwch fwrw golwg ar yr amseroedd cyn cychwyn.

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Aberogwr i Borthcawl 8.5 milltir

***Ewch i weld Ffigyr-êt y byd naturiol yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Cwningar Merthyr Mawr ac ewch heibio i gestyll a llu o adfeilion hanesyddol eraill ar eich ffordd o Aberogwr i Borthcawl!***

## Dechrau

O'r safle bws, cerddwch ymlaen yn y cyfeiriad y bu'r bws yn teithio a chroesi'r ffordd i gerdded i lawr stryd ochr fechan ar y dde, ger y Swyddfa Bost, sef Slon Lane. Ger diwedd y lôn, byddwch yn gweld llwybr sy'n mynd i lawr i Lwybr Arfordir Cymru ar lan y môr.

Ar ôl cyrraedd y Llwybr Arfordir, trowch i'r dde i gerdded ar hyd y morlin o flaen Aberogwr. Bydd y llwybr yn mynd o gwmpas y maes parcio cyn troi tua'r tir ar hyd aber Afon Ogwr ac anelu i fyny'r dyffryn afon gwastad. Mae'r ffordd ymlaen yn eithin i gyd, a gallwch weld yr afon yn dolennu'n llydan ar draws waelod y dyffryn nes ichi gyrraedd man parcio bychan wrth ymyl y ffordd.

Yma rydych yn croesi'r B5424 ac yn mynd drwy gefn gwlad toreithiog, wrth i'r llwybr eich tywys i fyny ac i ffwrdd o'r heol. Daw'r llwybr allan wrth y 'Pelican in her Piety', sef tafarn hanesyddol gyferbyn ag adfeilion Castell Ogwr.

Mae'r llwybr yn parhau wrth y ffordd am ryw ¼ milltir i safle bws ar ôl grid gwartheg. Rydych yn troi i'r chwith oddi ar y ffordd yma ac yn croesi Afon Ewenni, un o lednentydd Afon Ogwr, dros bompren fechan.

Ar ôl croesi cae mae llwybr bach yn arwain i lawr i Gastell Ogwr sy'n werth ymweld ag ef ac, i'r anturus yn eich plith, mae yma gerrig sarn ar draws yr afon yn ystod distyll! Gan ddychwelyd i Lwybr Arfordir Cymru, mae pont grog, neu bont sboncio fel y'i gelwir yn lleol, yn croesi Afon Ogwr ac oddi yma mae'r llwybr yn dilyn isffordd am ychydig i bentrefan Merthyr Mawr. Cadwch i'r chwith wrth faes y pentref a dilyn y ffordd heibio i eglwys Fictoraidd hyfryd Teilo Sant ar y dde.

Ewch i lawr y lôn hon am ryw hanner milltir, heibio i goetir a chaeau agored nes iddi gyrraedd maes parcio ar gyfer Cwningar Merthyr Mawr – sef Gwarchodfa Natur Genedlaethol sy'n gartref i'r twyn tywod uchaf yng Nghymru, o'r enw Big Dipper! Mae'n hafan i fywyd gwyllt; mae tywod wedi setlo ar ben y clogwyni calchfaen hynafol gan greu cynefin arbennig i bryfed, ffyngau a phlanhigion.

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path



# Aberogwr i Borthcawl (parhad) 8.5 milltir

Efallai hefyd y cewch gipolwg ar adfeilion y Maenordy o'r 14eg ganrif a elwir Castell Candleston draw ar y dde. Bu'n adfail ers y 18fed ganrif. Eto, os oes digon o amser, mae'n werth gadael y llwybr am ychydig i gael golwg ar y lle.

Daw nifer o lwybrau at ei gilydd yn y maes parcio hwn felly cofiwch ddewis Llwybr Arfordir Cymru sy'n croesi'r maes parcio i'r gornel bellach ar y chwith o'r man lle daethoch i mewn.

Dilynwch y llwybr meddal, tywodlyd drwy goetir, a ddaw'n ardal donnog o dwyni tywod, yn cris-croesi â llawer o lwybrau bach. Mae'r system dwyni yma'n unigryw i Gymru, a hynny'n rhannol oherwydd yr ardal enfawr a orchuddir ganddi - mae'n ymestyn i 840 erw (cymaint â 340 o gaeau rygbi rhyngwladol!). Gall fod yn anodd weithiau adnabod Llwybr Arfordir Cymru ond cofiwch eich bod yn anelu at gyrraedd aber yr afon sydd i'r de-orllewin o'r man hwn. Mae'r afon ar y chwith erbyn hyn ac oddi yma cewch edrych ar draws yr afon a gweld eich man cychwyn heb fod yn bell i ffwrdd ond heb fod o fewn cyrraedd cyflym!

Wrth aber yr afon, gan wynebu'r môr, dilynwch y llwybr i'r dde, ar hyd y Llinell Dŵr Uchel Cymedrig, gan groesi'r traeth a'r Creigiau Duon i ochr arall y Bae. Dyma ddarn prydferth o arfordir digyffwrdd felly cymerwch ennyd i edrych yn ôl ar y system anhygoel o dwyni y tu ôl ichi.

Mae'r llwybr yn parhau o gwmpas y bae ac yn troi cornel ger Trwyn Newton, gan ymylu parc carafanau statig uwchben Bae Trecco lle gallwch weld ar draws Môr Hafren i forlin Dyfnaint. Rydych wedi cyrraedd Porthcawl. Ewch ymlaen i'r bae nesaf sef Sandy Bay – a'r rhesymau am ei enw'n amlwg! Ewch heibio i'r ffair yn nhraeth Coney, ac yna gallwch ddilyn y promenâd i Harbwr Porthcawl, a mwynhau lluniaeth haeddiannol. Dyma ddiwedd y daith gerdded, a gallwch fynd i fyny i Borthcawl i gwrdd â'ch bws yn ôl i Ben-y-bont ar Ogwr.

## Cludiant i fan cychwyn y daith

Mae bws rhif 303 o Orsaf Fysiau Pen-y-bont ar Ogwr i'r Brif Ffordd, Aberogwr yn mynd bob awr ac yn cymryd rhyw 20 munud. Cofiwch fwrw golwg ar yr amseroedd cyn cychwyn.

## Cludiant ar ddiwedd y daith

Ewch ar fws rhif 172 neu X2 o John Street, Porthcawl i Orsaf Fysiau Pen-y-bont ar Ogwr. Mae o leiaf un bws bob hanner awr, a'r siwrnai'n cymryd rhyw 30 munud.

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk

# Arfordir De Cymru

## Atyniadau ychwanegol tra byddwch yn yr ardal

### Castell Ogwr

Ceir adfeilion sylweddol castell carreg Normanaidd ar lannau Afon Ogwr sy'n llecyn hyfryd am bicnic ac, i'r dewr yn eich plith, mae cerrig sarn ar draws yr afon, sydd yn y golwg adeg distyll. .

**cadw.gov.wales/daysout/ogmorecastle**

### Parc Gwledig Porthceri

Ym Mharc Gwledig Porthceri, cynigir popeth i'r teulu ymlacio am y dydd. Ceir 220 erw o goetir a dolydd i'w crwydro, gan arwain at draeth o gerigos calchfaen.

Yn y parc ei hun, mae cwrs bach da o 12 twll taro a phytio, heb ichi ddrysu rhwng hwn a mini golff! Ceir llwybrau natur hefyd o amrywiol hydoedd ac anawsterau, a mannau picnic tawel ac ardaloedd barbeciw (codir tâl am farbeciw: ffoniwch 029 2070 1678 i archebu un). Maent ar wasgar ar hyd y lle, felly mae bron bob amser modd dod o hyd i fan bach tawel.

Ceir ap i'ch helpu i gael y mwyaf o'r parc. Gyda realiti estynedig (AR) gallwch gwrdd â Henry Ringham, y daethpwyd â'i gwmni i mewn i atgyweirio'r draphont ar ôl iddi ddechrau cwympo, ac Ann Jenkin, gwrach Cliff Wood Cottage. Cewch wybod am y diodydd a wnâi, a'r swynion posibl. Ar waelod Cliff Wood, gyda'ch ap gallwch weld y felin lifio ganoloesol, a'i hadfeilion sydd ychydig yn y golwg heddiw.

Mae gan yr ap lwybrau casgladwy a sbardunir gan GPS, fel y gallwch archwilio'r parc, gan gasglu planhigion ac anifeiliaid rhithwir ar y ffordd tra byddwch yn cadw llygad am y rhai go iawn. Gallwch gasglu mythau a chwedlau o gwmpas y parc gyda'r llwybr stori ac mae llwybr casgladwy i blant o gwmpas ardal y ddôl er mwyn iddynt hwy hefyd gasglu ffeithiau am wahanol anifeiliaid wrth redeg o gwmpas.

**visitthevale.com/cy/Be-Inspired/Parks-and-Gardens/Porthkerry-Country-Park.aspx**



Castell Ogwr



Ogwr

### Amgueddfa Porthcawl

Amgueddfa gynnes, gyfeillgar ac addysgiadol. Dros y blynyddoedd, drwy roddion a benthyciadau, mae'r Amgueddfa wedi casglu dros 8,000 o eitemau. Yn eu plith, mae: hanes wedi'i ddogfennu o'r dref a'r cylch, amrywiaeth eang o arteffactau yn cynnwys eitemau'r cartref, masnach, addysg, gwleidyddiaeth, hanes cymdeithasol ac adloniant. Mae eitemau eraill yn cynnwys hanes milwrol a phethau cofiadwy o'r ganrif ddiwethaf, cerameg, dogfennau lleol prin, miloedd o ffotograffau lleol, ac eitemau archeolegol gan gynnwys Casgliad Blundell.

**porthcawlmuseum.com**

### Eglwys Illtud Sant a Chapel Galilee

Un o'r eglwysi pwysicaf yng Nghymru sy'n cynnwys casgliad o groesau hynafol.

Sefydlodd Illtud Sant eglwys a man dysgu yn 500 OC. Mae'r eglwys drawiadol o'r 11eg ganrif sy'n sefyll bellach ar y safle wedi'i galw'n San Steffan Cymru.

Yn y pen gorllewinol saif Capel Galilee sy'n gartref i arddangosfa o gerrig cerfiedig a chroesau Celtaidd – yn ôl y sôn, y casgliad gorau y tu hwnt i Amgueddfa Cymru.

**visitthevale.com/en/Be-Inspired/History-and-Mystery/St-Illtuds-Church-Galilee-Chapel.aspx**